# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 13 Mai 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Agenda

(265)v4

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**Cwestiwn Brys 1**

**Darren Millar** (Gorllewin Clwyd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau arferol yng ngogledd Cymru, yn sgil adroddiad a nododd bryderon ynghylch pa mor ddiogel ydyw?

**Cwestiwn Brys 2**
**Eluned Parrott (South Wales Central):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adnewyddu rhaglen Twf Swydd Cymru, yn sgil y cyhoeddiad heddiw y bydd

Llywodraeth Cymru yn parhau i’w hariannu?

**3 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar yr ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd (60 munud)**
**NDM5756 David Rees (Aberafan)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ei ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mawrth 2015.

Nodyn: Gosodwyd ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mai 2015.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Ymateb Llywodraeth Cymru

**4 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5755 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod manteision digwyddiadau chwaraeon mawr yng Nghymru;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd ati'n weithredol i wneud cais ar gyfer Gemau'r Gymanwlad; a

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau y gwneir y gorau o fanteision i iechyd y cyhoedd, twristiaeth a'r economi yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ym mhwynt 2, ar ôl 'Gemau'r Gymanwlad' mewnosod 'a'r Tour de France'.

**Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod cyfleusterau sefyll diogel mewn stadia yn creu awyrgylch gwell mewn digwyddiadau mawr ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r Awdurdod Diogelwch Meysydd Chwaraeon i baratoi canllawiau y gellir cyflwyno ardaloedd sefyll diogel oddi tanynt.

**5 Dadl Plaid Cymru (60 munud)**
**NDM5759 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod nad yw fformiwla gyllido Barnett er budd pennaf Cymru;

2. Yn nodi pe bai Cymru'n cael ei hariannu ar yr un sail â'r Alban fesul pen o'r boblogaeth, byddai'n cael £1.2 biliwn ychwanegol bob blwyddyn; a

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddadlau'r achos o blaid cyllido Cymru ar yr un sail â'r Alban.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn cydnabod canfyddiadau Comisiwn Holtham fod fformiwla Barnett yn tanwario ar Gymru o ryw £300 miliwn y flwyddyn;

2. Yn credu y dylai Cymru gael ei hariannu'n deg;

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i:

a) comisiynu diweddariad o ddadansoddiad Comisiwn Holtham;

b) sefydlu llawr Barnett ar unwaith; ac

c) cynyddu'r grant bloc i lefel teg i sicrhau cyllid teg i Gymru.

*[os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2, 3 a 5 yn cael eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2 – Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwyntiau 2 a 3 ac yn eu lle rhoi:

2. Yn nodi bod astudiaethau wedi dod i'r casgliad dro ar ôl tro nad yw Cymru'n cael ei chyllido'n unol â'r angen.

3. Yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod Cymru yn cael ei chyllido'n deg drwy weithredu terfyn ariannu isaf sy'n cael cefnogaeth drawsbleidiol.

*[os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliannau 3 a 5 yn cael eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 3 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gynnal adolygiad ar y cyd i asesu anghenion cyllido Cymru.

**Gwelliant 4 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn croesawu cytundeb Dydd Gŵyl Dewi a'r cynlluniau ar gyfer cyllid gwaelodol ar gyfer Cymru.

**Gwelliant 5 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ym mhwynt 3, dileu ' yr un sail â'r Alban' a rhoi yn ei le 'sail angen, nid y boblogaeth'.

**6 Cyfnod pleidleisio**

**7 Dadl Fer (30 munud)**
**NDM5758 Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)**

Addysg heblaw yn yr ysgol

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 19 Mai 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 6 Mai 2015 i'w hateb ar 13 Mai 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## Gofyn i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

1. **Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr eitemau a drafodwyd yn ei gyfarfod diweddaf gyda'r undebau ffermio? OAQ(4)0304(NR)

2. **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bysgota môr hamdden gyda rhwydi? OAQ(4)0296(NR)

3. **Christine Chapman (Cwm Cynon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i adnewyddu'r gyfraith sy'n ymwneud â gwarchod bywyd gwyllt yng Nghymru? OAQ(4)0302(NR)

4. **Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses o wneud ceisiadau ar gyfer cynllun y taliad sylfaenol eleni? OAQ(4)0294(NR)**W**

5. **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i wahardd llusernau awyr rhag cael eu defnyddio yng Nghymru? OAQ(4)0293(NR)

6. **Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu i hyrwyddo'r ymgais i gynhyrchu ynni ar raddfa fach? OAQ(4)0300(NR)

7. **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella coetiroedd Cymru? OAQ(4)0307(NR)**W**

8. **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â chyllid i glirio safleoedd glo brig yng Nghymru? OAQ(4)0299(NR)

9. **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa effaith y bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei chael ar ddefnyddio tir ar gyfer tyfu bwyd? OAQ(4)0291(NR)

10. **Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella rheolaeth a lles cŵn? OAQ(4)0297(NR)

11. **Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi ffermwyr yn Sir Benfro? OAQ(4)0290(NR)

12. **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y penderfyniad i alw cynlluniau ar gyfer East Pit i mewn? OAQ(4)0292(NR)

13. **Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae awdurdodau cynllunio yn defnyddio cytundebau adran 106 yng Nghymru? OAQ(4)0301(NR)

14. **Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymhwyster tir ar gyfer cynllun y taliad sylfaenol? OAQ(4)0298(NR)

15. **Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar adfer safleoedd cloddio glo brig? OAQ(4)0288(NR)

## Gofyn i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

1. **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith y bydd canlyniad etholiad cyffredinol y DU yn ei chael ar drechu tlodi? OAQ(4)0316(CTP)

2. **Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adfywio canol trefi? OAQ(4)0313(CTP)

3. **Alun Ffred Jones (Arfon):** A oes gan y Gweinidog dargedau CAMPUS ar gyfer mynd i'r afael â thlodi? OAQ(4)0315(CTP)

4. **Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol? OAQ(4)0322(CTP)

5. **Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog mwy o bobl ifanc i ddechrau gwirfoddoli? OAQ(4)0324(CTP)

6. **John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru? OAQ(4)0317(CTP)

7. **Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gau swyddfeydd post yng nghanolbarth Cymru? OAQ(4)0321(CTP)

8. **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith y trydydd sector yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0326(CTP)**W**

9. **Gwyn Price (Islwyn):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i gefnogi cartrefi incwm isel sy'n ei chael hi'n anodd cwrdd â'r gost gynyddol o fyw? OAQ(4)0328(CTP)

10. **William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r trafodaethau a gynhaliwyd gyda chydweithwyr cabinet ar gyfrifoldebau traws-bortffolio i fynd i'r afael â thlodi? OAQ(4)0325(CTP)

11. **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gefnogaeth sydd ar gael i'r ardaloedd hynny a gollodd eu statws Cymunedau yn Gyntaf ar ôl yr adolygiad diwethaf? OAQ(4)0329(CTP)**W**

12. **Christine Chapman (Cwm Cynon):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi yng Nghwm Cynon? OAQ(4)0323(CTP)

13. **Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru? OAQ(4)0327(CTP)

14. **Sandy Mewies (Delyn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y prosiect Cyngor Da, Byw'n Well? OAQ(4)0330(CTP)

15. **Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pa gyfarfodydd y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda chwmnïau, datblygwyr ac adeiladwyr ynglŷn â'u cyfraniad at ddarparu unedau rhentu preifat? OAQ(4)0319(CTP)**W**